Durham University

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE










# Astudiaethau Caplaniaeth Ôl-radd

## (gan gynnwys Tystysgrif Ôl-radd a Diploma ac MA )

www.stpadarns.ac.uk/cy/MAAstudiaethauCaplaniaeth

**Mewn partneriaeth â Common Awards Prifysgol Durham**

**2023-2024**

## Nododd un myfyriwr diweddar:

Cefais amser gwych a chofiadwy tra’n astudio gyda Athrofa Padarn Sant, ac mae’r profiad wedi cyfoethogi fy ngweinidogaeth. Ni fyddwn wedi medru allu cyflawni’r gwaith heb eich cymorth.

## Darparwr Unigryw

Mae rhaglen Caplaniaeth Athrofa Padarn Sant yn ddatblygiad unigryw sy'n cefnogi caplaniaid sydd eisoes yn gaplaniaid i ddatblygu eu gweinidogaeth a'u hymarfer. Rydym ni'n cynnig addysg ôl-raddedig mewn astudiaethau caplaniaeth mewn cydweithrediad a chyrff proffesiynol perthnasol eraill. Mae ein rhaglen wedi ei hachredu gan Fwrdd Caplaniaeth Gofal Iechyd y Deyrnas Unedig. Os ydych yn ystyried cofrestru gyda'r UKBHC, cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth. Bydd y rhaglen yn datblygu eich meddwl, ac eich ymwybyddiaeth o elfennau damcaniaethol ac ymarferol eich gwaith.

Rydym ni'n rhan o Athrofa Padarn Sant, adain hyfforddi'r Eglwys yng Nghymru. Yn ei datganiad mae'n nodi ' ffurfiant mewn cymuned ar gyfer cenhadaeth'. Mae Athrofa Padarn Sant yn galluogi pobl Duw ar draws y byd i rannu cariad trawsnewidiol Duw. Mae gan Athrofa Padarn Sant dros 23 mlynedd o brofiad ac enw da a gydnabyddir yn rhyngwladol, ac yn un o' prif ddarparwyr sy'n cynnig hyfforddiant caplaniaeth arbenigol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn croesawu myfyrwyr o unrhyw ffydd neu gred.

## Paratoi Ymarferwyr Effeithiol

Gallwch astudio yn rhan-amser ar gyfer Tystysgrif (blwyddyn), Diploma (dwy flynedd) neu radd Meistr (tair mlynedd). Dilysir y cwrs gan Brifysgol Durham, un o'r 24 o brifysgolion ymchwil-ddwys sy'n aelodau o'r Grŵp Russell. Nod rhaglen Athrofa Padarn Sant yw cynnig addysg ôl-radd mewn astudiaethau caplaniaeth mewn partneriaeth â chyrff proffesiynol perthnasol:

- Drwy gynnig ddatblygiad parhaus ar lefel uwch i unigolion sy'n gweithio ym maes caplaniaeth
- I ymgeiswyr gweinidogaethau caplaniaeth sydd eisoes wedi astudio diwinyddiaeth hyd at lefel gradd
- Ac ar gyfer unigolion sy'n dymuno i astudio caplaniaeth ar lefel ôl-radd.

Yn Athrofa Padarn Sant, rydym yn cynnig gwaith dysgu sydd wedi'i dargedu ar eich arbenigedd chi. Bydd y mwyafrif o'ch modiwlau'n cael eu hastudio gyda chymheiriaid sy'n gweithio yn yr un maes neu faes tebyg. Mae'r addysgu'n cael ei wneud gan gaplaniaid arbenigol ac arbenigwyr academaidd sydd wedi'u dewis yn ofalus ar sail eu gallu i'ch paratoi ar gyfer arweinyddiaeth yn eich rôl. Rydym yn arbennig o falch mai ni sy'n dal contract cenedlaethol y Weinyddiaeth Amddiffyn ers 1999.

Un o gryfderau astudio yn Athrofa Padarn Sant, yw gael y cyfle i astudio ag eraill o arbenigedd gwahanol. Yn ystod rhai modiwlau bydd cyfle dros ginio neu gyda'r nos i rhannu profiadau gyda chaplaniaid o meysydd amrywiol a gwneud ffrindiau newydd. Gan fod gennym dros 20 mlynedd o brofiad o alluogi caplaniaid o draws y Deynras Unedig a thu hwnt, mae yna ddigon o rhesymau da i ymuno gyda ni ym Mhadarn Sant.

## Tîm Addysgu Arbenigol gydag Adborth Rhagorol

**Y Parch Ddr Julian Raffay** yw Cyfarwyddwr Astudiaethau Caplaniaeth yr Athrofa. Mae wedi gweithio'n helaeth mewn caplaniaeth iechyd meddwl ac mae ganddo brofiad sylweddol o weinidogaeth blwyf. Bu'n gwasanaethu'n ddiweddar fel caplan ymchwil. Mae Julian wedi gwasanaethu mewn gwasanaethau Diogel Iawn. Mae wedi cyhoeddi'n eang. Lluniodd ei draethawd ar 'Y Berthynas rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chymunedau Ffydd'. Mae diddordebau academaidd Julian yn cynnwys moeseg, cyd-gynhyrchu, a theori gadarn.

**Y Padre David Crees** yw Dirprwy Bennaeth a Phrif Hyfforddwr Canolfan Gaplaniaeth y Lluoedd Arfog yn yr Academi Amddiffyn. Ef sy'n arwain gwaith addysgu moesegol Adran Caplaniaid Brenhinol y Fyddin i Swyddogion Iau a Phrif Swyddogion. Ers 2004, mae David wedi gwasanaethu 11 uned gan gynnwys teithiau yn Irac ac Affganistan. Mae'n gwneud ymchwil ddoethurol yn yr arddulliau arwain a fabwysiedir gan gaplaniaid Byddin Prydain.

**Y Parch Athro Jeremy Duff** yw Pennaeth Athrofa Padarn Sant. Mae'n angerddol ynglŷn â ffurfiant a chenhadaeth. Arbenigeddau Jeremy yw Astudiaethau'r Testament Newydd a Datblygu Arweinyddiaeth. Mae ganddo restr gyhoeddiadau helaeth. Cyn hynny bu'n ficer cymuned drefol ger Lerpwl.

Mae gan **Donna Bernard Carlin** radd Meistr mewn Astudiaethau Cwnsela (Prifysgol Nottingham), Meistr mewn Astudiaethau Cymdeithasol Cymhwysol (Prifysgol Brunel) a Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol. Yn ogystal i'w gwaith fel Caplan yn Ymddiriedoaleth Iechyd ysbytai Prifysgol Nottingham mae hefyd wedi Cynghori ar faterion Diogelu Esgobaethol i Esgobaeth Southwell a Nottingham.

**Parch Ddr Glynn Jones** cwblhaodd ei DMin (Prifysgol Caer) ar fodelau Caplaniaeth yn 2020. Mae'n Gaplan trwyddedig i Gaplaniaid yn Esgobaeth Carlisle ac yn gyn Gyfarwyddwr Rhanbarthol i Ymddiriedolaeth Gristnogol Carchardai, Daylight. Mae ganddo brofiad helaeth fel Caplan Rheolwr yn ngharchar Haverigg ac yn gyn Swyddog Carchar.

**Parch Ddr Jim Francis** Mae'n Gaplan Gyffredinol Cynorthwyol, Uned Rheoli Rhanbarthol (CF1) yn y Fyddin Brydeinig. Mae wedi bod yn Gaplan i nifer Fataliwn Milwyr, sydd wedi eu byddino ar ddyletswyddau dramor a thair taith gweithredol. Yn 2016 apwyntied ef yn Caplan Staff i Gaplaniaid y Weinyddiaeth Amddiffyn ym mhencadlys y fyddin. Swydd rhoddodd y cyfle iddo ddatblygu polisi Caplaniaeth a gweithdrefnau i alluogi darpariaeth gwasanaethau Caplaniaeth mewn Byddin sy'n gyflym newid.

**Parch Paul Nash** Mae'n Rheolwr Caplaniaeth ac Arweinydd Gofal Ysbrydol yn Ysbyty Menywod a Phlant Birmingham. Mae ef wedi cyhoedid yn helaeth ar waith plant a phobl ifanc o fewn caplaniaeth. Mae Paul wedi gwasanaethu fel yn Gynghorydd Caplaniaeth Paediatrig i grŵp adolygu Canllawiau Caplaniaeth y GIG yn Lloegr. Yn ogystal roedd yn awdur ar y cyd yn llyfr ' Tools for Reflective MInistry' ac yn dod â'r arbenigedd hwnnw i'r rhaglen.

## Cwrs i Bobl Broffesiynol sy'n Gweithio

I ateb anghenion pobl broffesiynol sy'n gweithio, mae’r addysgu’n digwydd mewn pedwar bloc dwys bob blwyddyn. Mae cyfnodau preswyl yn caael eu cynnal o ddydd Llun i Mercher ar ein safle yn Ghaerdydd lle gallwch gael mynediad i'r llyfrgell a’r staff addysgu. Mae ein llety en-suite yn fodern ac yn bwrpasol. Gwieinir bwyd ar  safle bob dydd a gallwn ateb gofynion dietegol arbennig.

Mae croeso i chi addoli gyda aelodau o’r coleg diwinyddol. Mae’n bosib  byddwch yn dymuno ymweld â atyniadau lleol eraill yn Llandaf megis yr eglwys gadeiriol, siopau, caffi’s, tafrandai a llwybrau cerdded.

Yn ystod y rhaglen meistr bydd myfyrwyr yn astudio tri modiwl y flwyddyn ym mlwyddyn  un a dau, wedi ei ddlyn gan traethawd hir. Yn y drydedd flwyddyn, mae myfyrwyr yn cael eu hannog i fynychu cyfnodau preswyl fel aelodau o’r gymuned dysgu agweithio ar eu traethodau hir.

I gwblhau’r M.A. Astudiaethau Caplaniaeth, mae’n rhaid ichi gwblhau chwe modiwl a addysgir a thraethawd hir 15,000 o eiriau.

<table>
<tr><th>Blwyddyn 1 (enghreifftiol)<br>Tystysgrif Ôl-radd</th><th>Blwyddyn 2 (enghreifftiol)<br>Diploma Ôl-radd</th><th>Blwyddyn 3<br>MA</th></tr>
<tr><td>Caplaniaeth a Chenhdaeth Gristnogol</td><td>Cydberthynas a Rheoli Emosiynau</td><td rowspan="3">Traethawd hir: ar unrhyw elfen o gaplaniaeth: Wedi gytuno â’r goruchwyliwr</td></tr>
<tr><td>Materion Moesegol mewn Caplaniaeth</td><td>Caplaniaeth mewn Cyd-destun Sefydliadol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymchwil a Myfyrio: NEU Ymarfer Myfyriol</td></tr>
</table>

## Dyddiad cau, Gofynion mynediad a Phroses Ymgeisio

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw diwrnod olaf Gorffennaf. Y meini prawf mynediad arferol yw gradd 2:1 gyda dwy flynedd o brofiad o gaplaniaeth neu radd 2:2 gyda phrofiad proffesiynol sylweddol. Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf hyn, cysylltwch â ni i drafod yr opsiynau sydd ar gael ichi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i’n gwefan www.stpadarns.ac.uk/MAAstudiaethauCaplaniaeth neu cysylltwch â Tina Franklin, Cydlynydd Ôl-raddedigion. Mae croeso i ymholiadau anffurfiol.

**tina.franklin@stpadarns.ac.uk**

**Athrofa Padarn Sant, 54 Heol Caerdydd, Caerdydd, CF5 2YJ (02920) 838 009**

Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru
Rhif Elusen Gofrestredig 1142813

Y ffotograff o gaplan y tu allan i Ysbyty Ashworth drwy garedigrwydd Mersey Care NHS Foundation Trust